

Haf 2021 | Rhifyn 142 | £7

# smalltalk

Cylchgrawn aelodau Blynyddoedd Cynnar Cymru

## Gofal plant ar y llinell flaen... flwyddyn ymlaen

- **Ymchwil:** Pwysigrwydd gwasanaethau blynyddoedd cynnar o ansawdd da
- **Astudiaethau achos:** Sut mae Covid-19 wedi newid y ffordd rydych chi'n darparu
- **Pwnc Trafod:** Cynnwys a chysylltu plant a'r oedolion pwysig yn eu bywydau

---

**Llifolau ar enillydd Lleoliad y Flwyddyn 2020 Blynyddoedd Cynnar Cymru**

---

**Cyngor diogelwch ar lein oddi wrth yr NSPCC**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Early Years Wales
Blynyddoedd Cynnar Cymru

# tu mewn


**4. Eich cyflwyniad i'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd yng Nghymru**
Yn eich paratoi ar gyfer y system Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd a ddaw i rym fis Medi.

**5. Cwricwlwm i Gymru**
Crynodeb o'r canllawiau Llwybrau Galluogi a'r cwricwlwm drafft ar gyfer lleoliadau a ariennir nas cynhelir.

**6. Lleoliad y Flwyddyn 2020 Blynyddoedd Cynnar Cymru: Meithrinfeydd Dydd Little Inspirations**
Mae buddsoddi yn eu staff wedi bod yn allweddol i lwyddiant y grŵp o feithrinfeydd.

**10. Stori glawr: Gofal plant ar y llinell flaen – flwyddyn ymlaen**
Flwyddyn yn ôl roedd ein sector wedi ymateb i newidiadau a heriau na welwyd eu tebyg, a hynny heb unrhyw batrwm i'w ddilyn nac i'n harwain. Mae'r tair erthygl canlynol yn dangos sut rydych chi wedi dal ati i arloesi ac addasu eich ymarferion.

**11. Effaith Covid-19 ar Flynyddoedd Cynnar: Tystiolaeth Ymchwil**
Wrth i ni ddod allan o'r cyfnod clo diweddaraf, mae'n debyg fod nawr yn amser da i gymryd cam yn ôl ac ystyried beth allai ymchwil ddweud wrthym am effaith posibl Covid-19 ar **addysg a gofal plentyndod cynnar** yn ystod yr argyfwng.

**13. Astudiaethau achos**
Rydym yn mynd yn ôl i dri o leoliadau aelodau a oedd wedi'u cynnwys yn ein herthygl nodwedd ar Ofal Plant ar y llinell flaen y llynedd, er mwyn gweld ar sut mae'u lleoliadau'n edrych erbyn hyn o gymharu â'r adeg hynny.

**15. Y Cyfnod Sylfaen: Pwnc Trafod**
Cysylltu a chynnwys plant a'r oedolion pwysig yn eu bywydau mewn amseroedd anarferol.

**18. Helpu plant i lywio'u ffordd yn ddiogel trwy'r byd ar-lein**
Mae cadw plant yn ddiogel ar lein yr un mor bwysig â'u diogelwch wrth groesi'r ffordd neu siarad gyda dieithriaid. Mae'r NSPCC yn rhannu ychydig o gyngor ac awgrymiadau defnyddiol ar gadw plant yn ddiogel ar lein.

**21. Ydych chi'n rhedeg grŵp Rhiant a Phlentyn Bach?**
Rydym ni'n cynnig cyfle cyffrous i aelodau gymryd rhan mewn prosiect Blynyddoedd Cynnar Actif Cymru a derbyn pecyn cefnogaeth i helpu gwneud eich grŵp yn llwyddiant.

**22. Ansawdd i Bawb: Yn Cyflwyno Pecyn Cymorth Ymwybyddiaeth Ansawdd Gofal Plant**
Mae Pecyn Cymorth Ymwybyddiaeth Ansawdd Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar Cymru wedi'i ddatblygu fel dewis arall yn lle'r achrediad Ansawdd i Bawb ac yn cydnabod sut mae darparwyr gofal plant wedi ymateb i'r amgylchiadau cyfnewidiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

**24. Ymgyrch Llysgennad Gofalwn.cymru**
Mae unrhyw un sy'n gweithio, yn gwirfoddoli neu sydd â diddordeb mewn Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant neu Ofal Cymdeithasol yn gallu dod yn Llysgennad Gofalwn. Mae dau o'n rhai ni'n dweud pam eu bod un cynrychioli'r sector.

**26. Wyddoch chi y gallai'ch lleoliad cael rhoddion am ddim oddi wrth fân-werthwyr arweiniol ar lein?**
Gallai siopwr ar lein cyffredin godi £30 y flwyddyn ar gyfer eich lleoliad. Mae easyfundraising yn dangos i chi sut.

**28. Diwrnod Dydd Gŵyl Ddewi ar Ynys Wyth**
Cafodd disgyblion Ysgol Gynradd Gatholig St Mary's yn Ryde ddiwrnod (rhithiol) pleserus dros ben yng Nghymru.

**30. Beth yw Asesiad Risg a pham fod ei angen?**
Ystyriaethau ac arweiniad am gynnal asesiadau risg rheolaidd.


## Y Tîm


**Golygydd:**
Charlotte Davies
smalltalk@earlyyears.wales

**Is-olygyddion:**
Maggie Kelly
Matt Anthony

**Registered Office:**
Unit 1, Coopers Yard,
Curran Road,
Cardiff, CF10 5NB

**T:** 029 2045 1242
**E:** info@earlyyears.wales

**Swyddfa Gofrestredig:**
Uned 1, Iard y Cowper,
Ffordd Curran,
Caerdydd, CF10 5NB

**Ff:** 029 2045 1242
**E:** info@earlyyears.wales


## Y Cyfryngau Cymdeithasol

Dilynwch ni ar Trydar
**@EarlyWales**

Ein gweld ar Gweplyfr
**EarlyYearsWales**

Ymunwch â ni ar Linkedin
**Early Years Wales**

Dilynwch ni ar Instagram
**earlyyearswales**

**Ymwelwch â'n gwefan**
**blynyddoeddcynnar.cymru**


Early Years Wales 2018
Blynyddoed Cynnar Cymru 2018



Registered Charity Number: 1056381
Company limited by guarantee: 3164233
Rhif Elusen Gofrestredig: 1056381
Cwmni cyfngedig drwy warant: 3164233

FSC
www.fsc.org
MIX
Paper from responsible sources
FSC® C022174

# Beth ydych chi wedi'i wneud heddiw i wneud i chi deimlo'n falch?

## Meithrinfa Dydd Little Inspirations Cyf

## Lleoliad y Flwyddyn 2020 Blynyddoedd Cynnar Cymru

**Er nad oeddem yn gallu mwynhau hwyl a sbri seremoni wobrwyo byw'r llynedd, roeddem yn benderfynol o weld 2020 yn mynd allan ar nodyn uchel.**

Ar 15 Rhagfyr, roeddem wrth ein bodd bod cymaint ohonoch wedi ymuno â ni ar gyfer ein dathliad gwobrwyo rhithiol. Mewn blwyddyn o gymaint o 'am y tro cyntaf' i bob un ohonom, roedd yn deyrnged addas iawn i waith anhygoel aelodau Blynyddoedd Cynnar Cymru yn ystod y 12 mis diwethaf. Pwy a ŵyr beth a ddaw yn 2021, ond, ar hyn o bryd, gadewch i ni ddal ati i ddathlu cyflawniadau ein henillwyr presennol.

Er mwyn ennill **Lleoliad y Flwyddyn 2020**, roedd y beirniaid yn chwilio am leoliad sy'n cael ei yrru gan ei angerdd dros gefnogi plant yn y Blynyddoedd Cynnar a'i ansawdd gofal plant. Mae'r pwyslais pennaf ar gynhyrchu amgylchedd diogel, glân, ysgogol lle mae plant yn cael eu hannog i chwarae, dysgu a ffynnu. Mae'r lleoliad yn rhoi'r parch pennaf i'w staff ac mae ganddo gysylltiadau ardderchog gyda rhieni, partneriaid allanol a'r gymuned leol. Mae'r lleoliad wedi llwyddo, neu'n gweithio tuag at, wobr Ansawdd i Bawb Blynyddoedd Cynnar Cymru, ac mae adroddiadau allanol, fel Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru, o safon uchel.

Yn y rhifyn hwn rydym yn troi'r llif olau ar Feithrinfeydd Dydd Little Inspirations, a enillodd Leoliad y Flwyddyn 2020 Blynyddoedd Cynnar Cymru. Roedd pwyslais penodol, ar y perthynasau rhagorol a'r parch mwyaf y maen nhw ei roi i'w gweithwyr.

Mae Jenine Gill, Sefydlwr a Chyfarwyddwr Little Inspirations, yn credu fod buddsoddi yn eu staff wedi bod yn allweddol i lwyddiant y cwmni. Mae'r staff yn cael eu nerthu i gymryd perchnogaeth er mwyn cyrraedd eu llawn botensial ac o ganlyniad, ar gyfartaledd mae staff yn aros yno am dros ddeng mlynedd.

Meddai,

***"mae'n rhieni'n gallu bod yn sicr y bydd eu plant yn ddiogel, yn cael eu hysgogi a'u cysylltu, oherwydd bod ein staff felly hefyd."***



***Diwrnod Arwr***

### Yn Little Inspirations rydym yn byw pob dydd yn unol â'r gwerthoedd sy'n cael eu dangos yn ein chwe Egwyddor Arweiniol.

**Cynhwysedd**
Mae pob angen yn cael ei barchu a'i gefnogi.

**Partneriaeth**
Cydweithredu a datblygu partneriaethau er mwyn aros yn arweinydd y farchnad.

**Amgylchedd**
Pawb yn ddiogel mewn amgylchedd hwyliog, ysgogol

**Cymuned**
Yn y canol ac yn weledol i'r gymuned rydym yn ei gwasanaethu.

**Creadigol**
Yn greadigol ym mhopeth rydym yn ei wneud, yn gwthio ffiniau posibilrwydd.

**Twf**
Gyda'n gilydd, i'n gwerthfawrogi ac i'n nerthu i ddatblygu'n sgiliau a gwybodaeth.

Cyf: little-inspirations.co.uk



## Dilyniant gyrfa

Mae Little Inspirations wedi tyfu o un safle yn Llantrisant, yn cyflogi 27 o staff yn 2003, i saith safle a 102 o staff ar draws De Cymru.

Mae cael nifer o safleoedd yn caniatáu i staff wella eu sgiliau a symud ymlaen, fel y mae Jenine yn egluro.

*"Erbyn 2005 roedd gennym dair safle gofal plant. Roedden ni'n cyflogi 50 o staff ac yn gofalu am 160 o blant bob dydd. Roedden ni'n gweithio mewn partneriaeth â dau awdurdod lleol ac yn darparu gofal ar gyfer plant a oedd yn derbyn gofal yr awdurdod neu wedi'u nodi'n risg uchel. Dyna pryd y sylweddolon ni fod y rhan fwyaf o'n staff wedi bod gyda ni ers y dechrau a, gyda nifer o safleoedd, ein bod yn gallu cynnig dilyniant gyrfa. Roedden ni'n yn gallu cynnig gwaith rheoli i nyrsys meithrin."*

## Prentisiaethau

Tua'r adeg hynny dechreuodd Little Inspirations weithio mewn partneriaeth ag **Educ8 Training** (https://www.educ8training.co.uk/). Ers hynny, mae tua 80% o'r staff wedi bod ar gynllun prentisiaeth. Mae'n amrywio o Lefel 2 at Lefel 5 CCPLD, Gwasanaeth y Cwsmer a chymwysterau  Arweinyddiaeth a Rheolaeth ILM.

Gyda chefnogaeth eu cyflogwr, roedd staff oedd wedi cael trafferth yn yr ysgol yn gallu cyflawni prentisiaeth. Yn gyflym iawn gwelodd Jenine a'i thîm fanteision hyn a phenodwyd Cydlynydd Dysgwr ar bob safle i gefnogi pob dysgwr a'u galluogi i lwyddo.

## Clod a Gwobrau

Derbyniodd Little Inspirations wobr Cyflogwyr y Flwyddyn 2015 VQ a chyrraedd y rownd olaf dair blynedd yn olynol yng Ngwobrau Prentisiaeth Cymru gan, yn 2020, ennill Gwobr Genedlaethol AAC ar gyfer cyfraniad eithriadol i ddatblygiad prentisiaethau Wythnos Addysg Bellach (cyflogwr) yn cael ei noddi gan City & Guilds ILM, gan gystadlu yn erbyn sefydliadau megis Llywodraeth y DU a TUI.

Mae gwobrau eraill sy'n adlewyrchu'r gwerth maen nhw'n ei osod ar eu staff yn cynnwys:

**Gwobrau Busnes Ffederasiwn Busnesau Bach a Worldpay UK 2017**

- Enillydd Cyflogwr y Flwyddyn

**Gwobrau Twf Busnes 2019 – De Cymru**

- Enillydd Cyfraniad Economaidd
- Enillydd Busnes y Flwyddyn




*Enillwyr Gwobrau Twf Busnes*

Cafodd y cwmni hefyd statws Arweinyddiaeth Cyflogwr ChwaraeTeg oddi wrth Chwarae Teg yn 2019 (https://chwaraeteg.com/prosiectau/cyflogwr-chwarae-teg/)

## Iechyd Meddwl a llesiant

Yn Little Inspirations mae gan bawb gyfrifoldeb dros lesiant, o'r Cyfarwyddwyr i lawr i'r staff. Mae sgyrsiau ynghylch iechyd meddwl a llesiant yn cael eu hannog ac mae saith aelod o staff wedi'u hyfforddi'n llawn fel cymhorthwyr cyntaf iechyd meddwl i ddarparu cefnogaeth ar safle os oes angen.

O ganlyniad i'w hymrwymiad i lesiant staff dyfarnwyd **Gwobr Aur Iechyd Gweithle Bach** i'r cwmni gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar bob un o'u safleoedd ac maen nhw'n gweithio tuag at Wobr Sylfaenol Iechyd Corfforaethol.

## Cynllun Cyn Ysgol Iach a Chynaliadwy

Menter Llywodraeth Cymru yw'r Cynllun Cyn Ysgol Iach a Chynaliadwy sy'n cael ei ddarparu trwy Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'n anelu at hyrwyddo iechyd plant oedran cyn ysgol trwy weithio yn y lleoliadau gofal plant maen nhw'n eu mynychu. Un o'r ffyrdd y mae'r cynllun wedi cefnogi lleoliadau yn ystod y misoedd diwethaf yw darparu rhestrau cyfredol o hyfforddiant ac adnoddau ar gyfer pynciau megis atal a rheoli haint, iechyd meddwl ac emosiynol a llesiant a gweithgareddau corfforol. Mae gan bob ardal yng Nghymru gydlynydd ar gyfer y Cynllun Cyn Ysgol Iach a Chynaliadwy – cysylltwch â Healthy.Schools@wales.nhs.uk i ganfod sut i ymuno â'r cynllun yn eich ardal chi.

Byddwn yn edrych ar y Cynllun yn fanylach yn y rhifyn nesaf.

## Allanoli Adnoddau Dynol

Drwy fynd i bartneriaeth gydag Peninsula HR, mae Little Inspirations yn gallu cynnig cyfle i staff ymuno â Rhaglen Cymorth Cyflogeion a Gwasanaethau llesiant cyflogeion, gan gynnwys cyngor dros y ffôn 24/7, cwnsela wyneb i wyneb ac adnoddau ar lein i'w helpu i aros yn hapus ac yn iach.

## amser i newid

Yn 2019 llofnododd Little Inspirations yr Adduned Cyflogwr i gael gwared ar wahaniaethau ar sail iechyd meddwl. Yn anffodus, mae'r adduned wedi'i rhoi heibio erbyn hyn, ond mae yna'n dal ddigon o adnoddau ar gael trwy https://www.time-to-change.org.uk/ i'ch helpu i ddatblygu'ch cynllun gweithredu eich hunain. Mae fideo o'r digwyddiad a gynhaliodd y feithrinfa i ddathlu llofnodi'r adduned ar eu tudalen Facebook yma: https://fb.watch/5ztCOsQ05L/









*digwyddiad amser i newid*



Jenine Gill gyda Rhian Manning o 2 Wish Upon a Star






Gwobr Dewi Sant



## Gwobr Dewi Sant i Fusnes 2021

Gwobrau Dewi Sant yw gwobrau cenedlaethol Cymru i gydnabod cyflawniadau anhygoel pobl Cymru, ac yn cael eu henwebu gan bobl Cymru. Fis Mawrth, dyfarnodd Prif Weinidog Cymru, Mark Drakeford, y Wobr Busnes i Little Inspirations yn gydnabyddiaeth am y gwasanaethau roedden nhw'n dal i'w darparu i'w cymunedau yn ystod y pandemig wrth gefnogi teuluoedd a'u rhai bach.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Jenine Gill, y wobr i'w staff, gan ddweud eu bod  yn benderfynol na fyddai'r drysau byth yn cau ac y bydden nhw wastad yno i gefnogi'r rhai ar reng flaen oedd angen mynd i'r gwaith. Dywedodd hefyd fod y wobr ynghylch

*"denu sylw i'r diwydiant [y sector gofal plant], a chael sylw i'r rhan roedden ni wedi ei chwarae."*

**Llongyfarchiadau!**

### Efallai y byddwch hefyd â diddordeb mewn:

Y llifolau ar ... Meithrinfa Ddydd a Chyn-ysgol Abacus, Abertawe - Lleoliad y Flwyddyn Blynyddoedd Cynnar Cymru, *small***talk** (gaeaf 2019), tudalen 5-9
Gwobrau Blynyddoedd Cynnar Cymru 2020, *small***talk** (gwanwyn 2021), tudalen 4-5

Darparu cymwysterau gofal plant yn wyneb Covid-19, *small***talk** (gaeaf 2020), tudalen 17 – 19
Codi safonau mewn gofal plant i Gymru, *small***talk** (haf 2019), tudalen 8 - 9

### Peidiwch ag anghofio

Mae aelodau Blynyddoedd Cynnar Cymru'n gallu lawrlwytho ôl rifynnau o smalltalk am ddim:
https://www.earlyyears.wales/cy/shop